



EIPWALES

Cydweithio er ffyniant gwledig
Collaborating for rural success



Rheoli dail tafol yn electroffisegol

Y BROBLEM:

Mae cynydd mewn diddordeb o fewn y sector amaeth i symud oddi wrth ddulliau cemegol o reoli chwyn.

NOD Y PROSIECT:

Ymchwilio sut gall peiriant chwyn electroffisegol lleihau ein dibyniaeth ar chwynladdwyr wrth reoli dail tafol. Bydd y dechneg hon o ddiddordeb i ffermwyr organig lle gall rheoli dail tafol fod yn her sylweddol.

SAFLEOEDD Y PROSIECT:

Dwy fferm laeth ger Rhaglan, Sir Fynwy:
Fferm Argoed a Llwyn Celyn.

AMSERLEN Y PROSIECT: Ionawr 2018 – Tachwedd 2021

Sut mae'n gweithio?

Mae'r peiriant RootWave Pro yn gyrru cerrynt foltedd uchel drwy'r planhigyn sy'n ei ferwi o'r tu mewn am allan o'r gwraidd i fyny. Ar y plotiau arbrofol bychain sy'n rhan o'r prosiect, defnyddir picell gyda chebl 20m wedi'i bweru gan eneradur petrol. Mae pob planhigyn tafol yn cael ei gyffwrdd gyda'r bicell am oddeutu 5-10 eiliad cyn symud ymlaen at y planhigyn nesaf.

"Mae hi'n ddyddiau cynnar i'r dechnoleg hon, ac fel unrhyw beth newydd, bydd datblygiadau yn arwain at wella effeithiolrwydd a gostyngiad yn y pris. Mae'r dull unigryw hwn o reoli dail tafol yn cynnig potensial enfawr i ffermwyr organig a chonfensiynol. Gellir addasu graddfa'r dechnoleg, a gellid defnyddio chwynwyr trydanol mwy ar dractor mewn amrwyiaeth o wahanol sefyllfaoedd ar y fferm," meddai Will John, ADAS, y Brocer Arloesedd ar gyfer y prosiect.

Dengys y canlyniadau o'r tymor tyfu cyntaf bod triniaeth drydanol wedi bod yn effeithiol wrth ladd y dail tafol, ond, gwelwyd bod angen ailadrodd y driniaeth i fod yr un mor llwyddiannus â chwynladdwr. Bydd yr arbrofion yn parhau yn 2021.

